OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1566 (Cy. 143) (C. 62)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 24 Mehefin 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 120(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(**1**),yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2013.

### Y diwrnod penodedig

**2.** 1 Medi 2013 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ddod i rym, i'r graddau y maent yn ymwneud ag ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2013

(**1**) 2012 p.9.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 120(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ("Deddf 2012"). Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn i gael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2012.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn adrannau 26 i 28 o Ddeddf 2012 i rym ar 1 Medi 2013 i reoleiddio gwybodaeth fiometrig plant a phobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru a sefydliadau addysg bellach (SABau) yng Nghymru.

Mae adran 26 yn gosod gofyniad ar ysgolion a SABau i hysbysu rhieni a chael cydsyniad rhieni cyn prosesu gwybodaeth fiometrig plentyn.

Mae adran 27 yn nodi eithriadau i'r gofyniad i gael cydsyniad ac yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cydsyniad a hysbysu.

Mae adran 28 yn cynnwys diffiniadau sy'n berthnasol i weithrediad adrannau 26 i 28.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2012 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 56 | 1 Hydref 2012 | 2012 Rhif 2499 (Cy.274) (C.98) |
| Atodlen 4 | 1 Hydref 2012 | 2012 Rhif 2499 (Cy.274) (C.98) |